

## DATGANIAD POLISI CYNALIADWYEDD

Mae gan Goleg Penybont dros 6,000 o ddysgwyr ac mae'n cyflogi tua 800 aelod staff. Rydym yn cynnig amrywiaeth helaeth o gyrsiau, o lefel Mynediad hyd at lefel Gradd, mewn dros 20 o feysydd galwedigaethol ac ar draws pedwar lleoliad ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Pencoed, Heol y Frenhines a Maesteg. Yn ogystal, mae Coleg 6ed Dosbarth Penybont ar hyn o bryd yn cael ei rheoli gan bartneriaeth rhwng Coleg Penybont ac Ysgol Gyfun Pencoed.

Gydag uchelgais o fod yn sefydliad eithriadol, mae Coleg Penybont yn cydnabod ac yn derbyn bod pryderi am y byd naturiol, addysg am gynaliadwyedd, iechyd, lles, a diogelwch ei staff, myfyrwyr, contractwyr, ymwelwyr ac aelodau'r gymuned leol a byd-eang yn rhan annatod a sylfaenol o strategaeth y Coleg ar gyfer llwyddiant. Byddwn yn ysbrydoli pobl, yn dathlu ac yn rhannu llwyddiant, ac yn hyrwyddo'r rôl hanfodol sydd gan addysg wrth gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDGs) a'r gwerth y mae'n rhoi i'n dysgwyr, ein staff, ein busnesau, a'r gymdeithas ehangach. Fel cyflogwr a darparwr addysgol mawr, rydym yn cydnabod ein bod ni'n galluogi newidiadau cadarnhaol a bod gan ein penderfyniadau effaith yn bell y tu hwnt i derfyn y Coleg, yn y presennol ac yn y dyfodol.

Mae Coleg Penybont yn llwyr ymrwymedig i addysg am gynaliadwyedd, diogelu iechyd a lles pobl, ei ystâd, y byd naturiol, ac atal llygredd yn ei holl ffurfiau, a byddwn yn gwella'r system rheoli iechyd a Diogelwch yn barhaus er mwyn cefnogi'r ymrwymiad hwn. Mae gan yr ymrwymiad hwn gefnogaeth lawn y Corff Llywodraethol, yr Uwch Dîm Arwain, a'r Pennaeth, sydd yn y pen draw yn gyfrifol am ei weithredu a sicrhau ei fod yn brif bryder i'r aelodau staff a'r myfyrwyr i gyd.

Mae Coleg Penybont yn ymrwymedig i wneud datblygiad cynaliadwy (iechyd, addysg, lles, diogelwch, a'r byd naturiol) yn egwyddor ganolog y bydd penderfyniadau a pholisïau yn cael eu gwneud yn unol â hi. Yn 2018, ni oedd y coleg cyntaf yng Nghymru i arwyddo Cytundeb Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDGs) y Cenhedloedd Unedig (CU), gan ymrwymo i adroddiadau gorfodol ar lefel rhyngwladol. Ar ben hynny, yn 2019, ni oedd y coleg cyntaf yn y DU i ddatgan argyfwng hinsawdd. Mae ein heffeithiau sylweddol yn cynnwys darparu cwricwlwm, defnyddio trydan a nwy, defnyddio cludiant, gwastraff sy'n mynd i safle tirlenwi, defnyddio dŵr, caffael nwyddau a gwasanaethau, isadeiledd, defnyddio tir, a bioamrywiaeth. Byddwn yn nodi bygythiadau o'n gweithgareddau a naill ai yn eu gwaredu neu'n eu rheoli'n effeithiol ac, ar y lleiaf, byddwn yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol a gofynion eraill, a byddwn yn cydweithredu'n llawn gyda'r awdurdodau perthnasol i gyd. Wrth symud ymlaen, byddwn yn:

- Dangos arweinyddiaeth eithriadol a datblygu arweinwyr eithriadol ar draws y sefydliad i'n helpu ni gyflawni ein hamcanion addysgol, iechyd, lles, diogelwch a byd natur.
- Sicrhau bod ein penderfyniadau, ar bob lefel, yn ystyried costau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol fel rhan o feddylfryd twf.
- Gweithio'n ddifflino i leihau allyriadau carbon trwy ein Strategaeth Sero erbyn 2030
- Cynnal lefel Blatinwm y Safonau Iechyd Corfforaethol ar gyfer iechyd, lles, a diogelwch.
- Adrodd effeithiau ein huchelgeisiau i fod yn sefydliad eithriadol i'r CU fel rhan o'r Cytundeb SDG.
- Sicrhau y dosrennir, derbynnir a chyflawnir cyfrifoldebau dros sicrhau diogelwch, lles, iechyd a chynaliadwyedd o'r radd flaenaf yn y coleg.
- Gosod targedau penodol ar gyfer gwella iechyd cyffredinol, lles, iechyd meddwl, diogelwch, a'r byd naturiol yn ein Strategaeth Datblygu Cynaliadwy sydd ar gael i'r cyhoedd.
- Parhau i fewnosod a datblygu Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) o fewn y sefydliad, a sicrhau bod pob aelod staff, ar bob lefel, yn cael ei gefnogi i'n helpu ni gyflawni ein hamcanion a'n uchelgeisiau cyfunol.
- Sicrhau ein bod ni'n dangos gonestrwydd ac eglurder mewn adroddiadau i'r cyhoedd.

Bydd y datganiad polisi hwn yn cael ei ddwyn i sylw pob aelod staff a myfyriwr, a bydd copiâu ar gael i'r cyhoedd, cyflenwyr, contractwyr, ac awdurdodau rheoleiddio. Bydd y ddogfen hon yn cael ei hadolygu yn flynyddol o leiaf.

Simon Pirotte

Date: 24/10/2022



(Pennaeth a Phrif Weithredwr) (Ar ran yr Uwch Dîm Rheoli)